# Cynnwys yn seiliedig ar drafodaeth P4C

Dewiswch un ysgogiad o'r rhai isod a gofynnwch y cwestiynau cysylltiedig i'ch dysgwyr.
Ceir rhagor o ganllawiau ar sut i gyflwyno gwers P4C yn y Canllaw Athrawon P4C ategol.

| Stimulus 1 | Stimulus 2 | Stimulus 3 |
| --- | --- | --- |
| A Song of Our Warming Planet - YouTube neu Massive Attack. | Lluniau o newid hinsawdde.e. gan Images from a Warming Planet - the UK in pictures \| Environment \| The Guardian | Streipen hinsawdd Climate stripes - University of Reading gan Ed Hawkins |
| **Beth osf** gofynnid i chi gynllunio agoriad y COP neu'r gynhadledd hinsawdd nesaf? Pa gyfrwng creadigol fyddech chi'n ei ddewis? E.e. celf, fideo, animeiddiad ac ati. | **Beth os** oeddech chi'n ffotograffydd yn ymdrin â newid hinsawdd? Beth fyddech chi'n tynnu llun ohono a pham? | **Beth os gallech chi ddewis enghraifft o ddata i ddangos newid hinsawdd? Beth fyddai hynny?** |
| **Sut ydych chi'n teimlo** pan welwch chi wybodaeth am newid hinsawdd? | **Sut ydych chi'n teimlo** pan welwch chi ddelweddau o eirth gwynion ar iâ sy'n toddi? Beth am pan welwch chi luniau o bobl yn chwarae mewn ffynhonnau mewn tywydd poeth A oes gwahaniaeth? | **Sut ydych chi'n teimlo** pan welwch chi ddata a gwybodaeth am newid hinsawdd? |
| **Cwestiwn mawr:** A ddylid defnyddio celf yn fwy i gyfathrebu syniadau cymhleth? | **Cwestiwn mawr:** A ddylid defnyddio lluniau'n fwy i gyfathrebu ynghylch newid hinsawdd? | **Cwestiwn mawr:** A yw'n bwysicach gwybod beth i'w ddisgwyl mewn 5, 10 neu 100 mlynedd yn y dyfodol? |